Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Rhiwlas
# Rhiwlas
# Bangor
# Gwynedd
# LL57 4EH

## Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2016

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru
Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 06/12/2016**

## Cyd-destun

Ysgol wledig yw Ysgol Gynradd Rhiwlas ac mae'n gwasanaethu'r pentref a'r ardal gyfagos. Mae'n darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 11 oed. Cymraeg yw iaith bob dydd yr ysgol a phrif gyfrwng y dysgu a'r addysgu. Fe addysgir Saesneg yn ffurfiol yng nghyfnod allweddol 2. Daw tua hanner y disgyblion o gartrefi ble siaredir Cymraeg. Nid oes yr un plentyn o gefndir ethnig lleiafrifol.

Derbynnir plant i'r dosbarth meithrin yn rhan-amser yn y mis Medi yn dilyn eu penblwydd yn dair oed, ac yn amser llawn yn y mis Medi yn dilyn eu penblwydd yn bedair oed. Yn ystod yr arolygiad, roedd 42 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys saith yn y dosbarth meithrin. Fe'u haddysgir gan un athro amser llawn a dwy ran-amser mewn dau ddosbarth oedran cymysg.

Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy'n sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae 42% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol. Mae'r ffigur hyn yn sylweddol uwch na chanrannau Cymru. Nid oes yr un disgybl â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Penodwyd y pennaeth ym mis Medi 2012. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Tachwedd 2009.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Rhiwlas yn 2016-2017 yn £5,041. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Gwynedd yw £10,404 a'r lleiafswm yw £3,089. Mae Ysgol Gynradd Rhiwlas yn y 16eg safle allan o'r 93 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu gwersi ac yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol
- safonau ymddygiad bron pob un disgybl yn dda a dangosant gwrteisi, gofal a pharch tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr
- bron pob un disgybl yn frwdfrydig ac yn awyddus i ddysgu
- safon yr addysgu yn gyson dda
- profiadau dysgu diddorol yn ennyn diddordeb bron pob disgybl yn llwyddiannus
- yr ysgol yn gymuned hapus, gartrefol a chynhwysol

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon ar gyfer gwella yn dda oherwydd bod:

- y pennaeth yn cynnig arweiniad effeithiol a phwrpasol i'r ysgol gyda gweledigaeth glir a disgwyliadau uchel
- y pennaeth yn cael ei gefnogi'n dda gan y staff sydd yn rhannu'r un gwerthoedd ynghylch addysg a lles disgyblion
- y corff llywodraethol yn gweithredu'n effeithiol fel ffrindiau beirniadol ac yn herio a dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad
- gan yr ysgol weithdrefnau trylwyr a chadarn ar gyfer hunanarfarnu a chynlluniau clir ar gyfer gwella
- cydweithio effeithiol yn bodoli gydag ystod o bartneriaethau, sy'n cael effaith gadarnhaol ar les a chyflawniad

## Argymhellion

A1 Gwella ansawdd llawysgrifen a chyflwyniad gwaith y disgyblion

A2 Sicrhau bod athrawon yn darparu her gyson i ddisgyblion ar gyfer datblygu medrau rhif

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae canlyniadau asesiadau sylfaen disgyblion ar fynediad i'r ysgol dros y pedair blynedd diwethaf yn dangos bod eu medrau yn tueddu i fod yn is na'r disgwyl, yn enwedig mewn iaith a mathemateg. Dim ond tua hanner y disgyblion sy'n dod o gartrefi ble siaredir Cymraeg ar yr aelwyd. Fodd bynnag, mae medrau llafar y disgyblion a ddaw o gartrefi di-Gymraeg yn datblygu'n fuan iawn. Mae bron pob disgybl, gan gynnwys rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn cyflawni'n dda ac yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae medrau llafar rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n effeithiol. Maent yn gwrando'n astud ac erbyn diwedd y cyfnod, maent yn sgwrsio'n hyderus am eu gwaith a'u profiadau. Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn cyfathrebu'n glir ac yn hyderus yn y ddwy iaith ac yn cynnig atebion aeddfed wrth siarad am eu gwaith. Maent yn dangos balchder at yr iaith Gymraeg ac yn dewis defnyddio'r iaith i gymdeithasu amser chwarae yn ogystal ag yn eu gwersi. Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn cyrraedd safon dda o ddwyieithrwydd ac yn newid yn rhwydd o un iaith i'r llall wrth drafod eu gwaith.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da wrth ddysgu medrau darllen. Mae gan ddisgyblion ym mlynyddoedd cynnar y cyfnod ddealltwriaeth dda o'r berthynas rhwng llythrennau a seiniau ac maent yn eu defnyddio'n dda i ddarllen geiriau anghyfarwydd. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn darllen gyda rhuglder a mynegiant ac yn mwynhau darllen. Gall y rhan fwyaf drafod eu hoff lyfrau a chymeriadau'n hyderus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn gywir ac yn rhugl yn y Gymraeg a Saesneg. Maent yn darllen amrywiaeth dda o destunau gyda dealltwriaeth gadarn ac yn trafod eu hoff lyfrau â'u hoff awduron yn aeddfed. Maent yn defnyddio eu medrau yn dda i ganfod gwybodaeth o amryw ffynhonnell ac yn defnyddio geiriaduron, thesawrysau a chyfeirlyfrau i bwrpas yn ystod eu gwersi.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu ystod gynyddol o frawddegau syml yn gywir. Mae ganddynt ddealltwriaeth gynyddol o eirfa, ac maent yn dechrau defnyddio atalnodi sylfaenol yn eu gwaith yn dda. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da yn eu hyfedredd i ddefnyddio geirfa ac iaith amrywiol i ysgrifennu darnau ar draws y cwricwlwm.

Mae bron pob disgybl yng nghyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu'n ddeallus i wahanol ddibenion yn y Gymraeg a Saesneg, gan ddangos ymwybyddiaeth gadarn o'r gwahanol ffurfiau ysgrifennu, er enghraifft storïau, dyddiaduron a llythyron. Yn eu gwaith ar ffeiriau, mae'r rhan fwyaf yn dewis geirfa ddiddorol ac yn sillafu ac atalnodi'n gywir. Maent yn defnyddio ansoddeiriau, cymariaethau ac idiomau'n hyderus i gyfoethogi'r gwaith. Erbyn brig yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu darnau estynedig o ansawdd da. Fodd bynnag, nid yw llawysgrifen a chyflwyniad mwyafrif y disgyblion bob amser yn daclus.

Mae medrau rhifedd rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n dda. Erbyn diwedd y cyfnod, maent yn dangos gafael sicr ar ffeithiau rhif ac yn defnyddio'r wybodaeth yn fedrus i ddatrys problemau. Maent yn siopa am adnoddau i greu hetiau mewn gwersi creadigol, a chreu tabl amledd diddorol o wahanol goed yn y warchodfa natur. Gall y rhan fwyaf ddefnyddio unedau safonol i fesur hyd a màs yn llwyddiannus. Mae llawer yn defnyddio strategaethau pen yn llwyddiannus ar gyfer adio a thynnu rhifau sy'n cynnwys o leiaf dau ddigid.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o strategaethau rhif. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf yn hyderus wrth ddefnyddio ystod eang o ddulliau ar gyfer datrys problemau ac yn cyflwyno eu gwaith mewn modd systematig. Maent yn trin a dadansoddi data yn hyderus i greu graffiau, wrth gyflwyno eu gwaith mewn gwyddoniaeth ac yn dadansoddi eu canfyddiadau'n ystyrlon. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio eu gwybodaeth o siapiau i greu modelau 3D o drychfilod yn eu gwersi celf, a darllen graddfeydd map yn gywir wrth astudio'r ardal leol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn dda. Maent yn defnyddio rhaglenni prosesu geiriau yn bwrpasol, er enghraifft i ysgrifennu brawddegau syml a chreu llun am gwningen. Maent yn defnyddio meddalwedd yn fedrus i greu tablau a graff am eu hoff anifail fferm ac yn dod i gasgliadau synhwyrol. Gyda chymorth, defnyddiant y we yn bwrpasol i ymchwilio i hanes Guto Ffowc. Dangosant lefel dda o gymhwysedd wrth ddefnyddio'r bysellfwrdd.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau TGCh i safon uchel. Maent yn cyflwyno gwybodaeth mewn ffyrdd diddorol trwy ddefnyddio amrywiaeth helaeth o raglenni. Er enghraifft, gall llawer o ddisgyblion ddefnyddio meddalwedd i wella eu tablau drwy gystadlu â disgyblion mewn ysgolion eraill. Maent yn defnyddio rhaglen i lunio deialog diddorol yn seiliedig ar y llyfr 'Sothach a Sglyfaeth'. Mae'r disgyblion hŷn yn fedrus iawn wrth greu taenlenni ar wahanol barciau sy'n nodi, er enghraifft eu henwau, eu lleoliad a'u pellter o'r ysgol. Maent yn dadansoddi'r wybodaeth yn fedrus. Mae'r rhan fwyaf yn hyderus wrth chwilio ar y we am wybodaeth am yr arlunydd Wassily Kadinsky ar gyfer eu gwaith celf. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygu medrau ymchwiliol a llythrennedd y disgyblion. Mae dealltwriaeth disgyblion o bwysigrwydd e-ddiogelwch yn amlwg.

Yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2, dros y pedair blynedd ddiwethaf mae nifer y disgyblion wedi bod yn isel. O ganlyniad, nid yw'n bosibl dod i gasgliadau ystyrlon wrth eu hystyried. Mae canlyniadau un neu ddau ddisgybl, ar adegau, yn gallu dylanwadu llawer ar berfformiad y garfan gyfan. Gall hyn effeithio'n sylweddol ar berfformiad meincnodi'r ysgol o gymharu ag ysgolion tebyg ac o gymharu â chyfartaleddau cenedlaethol.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, dros gyfnod o bedair blynedd, mae perfformiad yr ysgol mewn iaith a mathemateg ar y deilliant disgwyliedig o'i gymharu ag ysgolion tebyg wedi bod yn gyson yn y 25% uchaf. Dros yr un cyfnod, mae perfformiad ar y deilliant uwch wedi amrywio.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwyliedig ac ar y lefel uwch mewn Cymraeg, Saesneg a gwyddoniaeth wedi amrywio o gymharu ag ysgolion tebyg. Fodd bynnag, ar y cyfan, mae perfformiad yr ysgol mewn mathemateg ar y lefel ddisgwyliedig ac uwch wedi bod yn gyson is na'r canolrif.

**Lles: Da**

Mae gan rhan fwyaf y disgyblion agweddau cadarnhaol iawn tuag at fwyta ac yfed yn iach ac maent yn gwybod beth i'w wneud er mwyn cadw'n heini. Maent hefyd yn cyflawni'n dda yn eu datblygiad personol a chymdeithasol, yn enwedig yn y ffordd maent yn cydweithio â'i gilydd yn ystod y gwersi.

Mae bron pob un disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod y bydd oedolion yn gwrando arnynt ac yn ymateb i'w hanghenion os bydd angen. Mae ymddygiad bron bob un o'r disgybl yn dda ac maent yn gwrtais a chroesawgar tuag at ymwelwyr. Maent yn ofalgar iawn o'i gilydd ac yn dangos parch at eraill mewn gwersi ac yn ystod amser chwarae.

Mae bron pob un yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at eu gwaith, yn canolbwyntio'n dda mewn gwersi ac yn gweithio'n ddiwyd am gyfnodau estynedig.

Mae gan ddisgyblion ymwybyddiaeth gryf o ba mor dda maent yn eu cyflawni a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf yn dod yn gynyddol hyderus i gymryd cyfrifoldeb am eu gwaith. Mae hyn yn gryfder erbyn diwedd cyfnod allweddol 2.

Mae'r ysgol yn parchu barn a llais y disgyblion. Mae gan aelodau'r cyngor ysgol ddylanwad cadarnhaol ar waith yr ysgol trwy fentrau amrywiol, er enghraifft wrth lwyddo i sicrhau gwarchodfa natur ar dir yr ysgol. Maent yn weithredol wrth lythyru'r awdurdod lleol a rheolwyr y ganolfan hamdden leol i gael hyfforddwyr sy'n siarad Cymraeg yn ystod eu gwersi nofio. Maent yn trefnu gweithgareddau cyson i godi arian ar gyfer nifer o elusennau a chaiff hyn effaith gadarnhaol ar eu hymwybyddiaeth o anghenion eraill. Mae disgyblion yn cyfrannu'n helaeth at y gymuned ac yn aml yn cymryd rhan flaenllaw mewn digwyddiadau cymdeithasol fel cyngherddau a gwasanaethau.

Mae presenoldeb yn yr ysgol yn dda ac wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r staff yn cydweithio'n dda i gynllunio amrywiaeth o brofiadau dysgu diddorol sy'n ennyn diddordeb bron pob disgybl yn llwyddiannus. Mae'r cwricwlwm yn bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen, Y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol. Mae athrawon yn sicrhau bod cyfleoedd cyson yn y dosbarthiadau ac yn yr ardaloedd allanol, fel y warchodfa, i ddisgyblion ddewis eu gweithgraeddau dysgu eu hunain.

Mae'r ysgol yn ymateb yn dda i ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd gyda'r cynlluniau gwaith yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau'r disgyblion. Mae cynllunio ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a TGCh y disgyblion yn drwyadl, gyda digon o gyfleoedd iddynt gymhwyso eu medrau ar draws y cwricwlwm yn effeithiol. Mae cynllunio ar gyfer datblygu medrau rhif y disgyblion yn gadarn, ond nid yw cyfleoedd i gymhwyso eu medrau yn cynnig digon o her yn gyson i'r disgyblion mwyaf abl.

Mae ystod dda o weithgareddau allgyrsiol ar gael i'r disgyblion, sy'n cyfoethogi eu profiadau yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae ymweliad i gastell Dolbadarn, taith gerdded i Rhyd Ddu ac olrhain llwybr yr afon Ogwen i'r môr yn cryfhau eu medrau llythrennedd a rhifedd ac yn hybu dealltwriaeth y disgyblion o nodweddion hanesyddol a daearyddol eu hardal yn llwyddiannus.

Mae darpariaeth ar gyfer y Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn gadarn iawn. Mae nifer helaeth o gyfleoedd i'r disgyblion ddysgu am draddodiadau, hanes a diwylliant Cymru. Maent yn cynnwys astudio gwaith arlunwyr, dathlu diwrnodau hanesyddol bwysig a chystadlu mewn eisteddfodau.

Mae'r cysylltiad agos gydag ysgol yn Siapan yn cyfrannu'n addas at gynyddu dealltwriaeth y disgyblion o'u rôl fel dinasyddion byd eang. Mae'r pwyllgor eco yn cefnogi dealltwriaeth y disgyblion o bwysigrwydd ailgylchu ac arbed ynni yn briodol.

**Addysgu: Da**

Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol dda ac maent yn arwain sesiynau dysgu effeithiol a diddorol sy'n cymell disgyblion i ddysgu. Mae perthynas waith effeithiol iawn yn bodoli rhwng oedolion a disgyblion, sy'n meithrin awyrgylch dysgu llwyddiannus. Mae'r holl staff yn manteisio ar bob cyfle i gyfoethogi iaith disgyblion, sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at eu medrau llafar. Mae athrawon yn cysylltu eu gwersi'n glir â dysgu blaenorol ac yn defnyddio ystod o ddulliau'n fedrus. Maent yn esbonio cysyniadau newydd yn glir, yn sicrhau cyflymder da i'r sesiynau, ac yn holi'r disgyblion yn effeithiol mewn dull sy'n eu hannog i roi atebion estynedig. Mae cymorthyddion yn cyfrannu'n effeithiol at ansawdd yr addysgu ac yn cynnig cymorth da yn ôl anghenion disgyblion er mwyn iddynt gwblhau eu tasgau'n llwyddiannus.

Gwna athrawon ddefnydd medrus o ystod o strategaethau asesu. Maent yn cynnig adborth llafar defnyddiol yn ystod gwersi. Mae enghreifftiau da o farcio pwrpasol ac mae athrawon yn annog disgyblion i fanteisio ar y cyfle i wella eu gwaith trwy ymateb i'w sylwadau. Mae cyfleoedd cyson i ddisgyblion werthuso eu gwaith eu hunain a gwaith eraill. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion, erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn deall pa mor dda maent yn ei wneud a sut i wella eu gwaith.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau trylwyr ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion, gan gynnwys defnydd effeithiol o brofion safonol ac asesiadau athrawon. O ganlyniad, mae athrawon yn deall anghenion y disgyblion yn dda ac yn defnyddio'r wybodaeth i osod tasgau priodol er mwyn iddynt symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu dysgu.

Mae trefniadau addas ar gyfer adrodd i rieni am gynnydd a chyflawniad eu plant ac maent yn bodloni'r gofynion statudol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer bwyta ac yfed yn iach, a sicrhau bod y disgyblion yn deall pwysigrwydd cadw'n heini. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus drwy ddarparu gwasanaethau cyd-addoli rheolaidd a thrwy weithgareddau'r cwricwlwm. Gwahoddir ymwelwyr yn gyson i arwain yr addoli ac mae cyfleoedd i ddisgyblion fyfyrio ar bynciau cyfoes, megis sut i fod yn ffrind da i eraill. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y parch a ddangosant at ei gilydd a thuag at oedolion. Mae astudiaethau ac ymweliadau yn eu hardal leol yn cyfrannu'n effeithiol iawn at ddealltwriaeth y disgyblion o'u hanes a'u hetifeddiaeth.

Mae darpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Mae athrawon yn adnabod anghenion disgyblion yn gynnar ac yn sicrhau cefnogaeth briodol ac effeithiol. Mae'r rhaglen ymyrraeth wedi ei datblygu'n dda ac yn sicrhau bod y disgyblion hyn yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu. Mae'r cynlluniau addysg unigol o ansawdd da a chaiff y cynlluniau eu hadolygu'n gyson mewn ymgynghoriad â'r rhieni.

Mae'r cydweithio agos sy'n bodoli rhwng yr ysgol a gwasanaethau arbenigol, fel y seicolegydd addysg, therapyddion lleferydd a'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae eu cyfraniad yn sicrhau cymorth effeithiol a pherthnasol i unigolion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn sicrhau arweiniad o ansawdd da i ddisgyblion a rhieni.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus, gartrefol a chynhwysol. Mae gan yr ysgol bolisïau, cynlluniau a gweithdrefnau clir, sy'n sicrhau cyfle cyfartal i bob disgybl ac sy'n hybu cydraddoldeb yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn annog cydweithrediad, gofal a pharch rhwng oedolion a phlant a rhwng plantâ'i gilydd yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae disgyblion yn ymfalchïo yn y gymuned hapus a chefnogol sy'n bodoli. Mae parch at wahaniaeth a chydraddoldeb hiliol yn cael ei hyrwyddo'n llwyddiannus drwy weithgareddau amrywiol, sy'n cynnwys astudio gwledydd tramor fel Brazil a Siapan.

Lleolir yr ysgol ar safle braf ac mae ansawdd yr adeilad yn dda. Mae'n cynnig digon o le, a gwneir defnydd pwrpasol o bob rhan ohono. Mae holl aelodau'r staff yn defnyddio'r ardaloedd allanol yn effeithiol i annog disgyblion i gadw'n iach a gwerthfawrogi'r amgylchedd o'u cwmpas. Mae'r warchodfa natur yn gaffaeliad defnyddiol ac fe wneir defnydd da ohono i ddatblygu dealltwriaeth y disgyblion o fyd natur.

Mae staff yn creu amgylchedd dysgu deniadol. Mae arddangosfeydd o waith celf y disgyblion ym mhob rhan o'r ysgol yn dathlu gwaith y disgyblion yn fwriadus ac yn ennyn balchder ynddynt yn eu gwaith. Mae cyflenwad helaeth o adnoddau ar gyfer cyflwyno gwersi a gweithgareddau ar draws y cwricwlwm. Mae adeilad a thir yr ysgol yn ddiogel ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n raenus.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn cynnig arweiniad effeithiol a phwrpasol i'r ysgol gyda gweledigaeth glir a disgwyliadau uchel. Mae'n rhannu'r rhain yn llwyddiannus gyda staff, rhieni, disgyblion a llywodraethwyr. Caiff ei gefnogi'n dda gan aelodau'r staff sydd yn rhannu'r un gwerthoedd ynghylch addysg a lles y disgyblion. Maent yn cydweithio'n effeithiol fel tîm ac mae hyn wedi arwain at safonau da ar draws yr ysgol.

Fe gynhelir cyfarfodydd staff yn rheolaidd ac maent yn canolbwyntio'n glir ar flaenoriaethau gwella. Mae agendâu yn sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau a'u rolau wrth gyflawni blaenoriaethau'r ysgol. Mae'r ffocws ar godi safonau, drwy systemau arfarnu grymus, yn sicrhau bod perfformiad yr ysgol yn cael ei herio'n gyson gan aelodau'r staff a'r llywodraethwyr.

Mae trefniadau rheoli perfformiad trylwyr yn cyfrannu at welliannau mewn addysgu a dysgu ac yn cynnig cyfleoedd effeithiol i hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff trwy raglen o gyfleoedd perthnasol a phenodol. Enghraifft dda o hyn yw'r modd mae athrawon yn rhoi cyfleoedd cyson i ddisgyblion, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2, gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain.

Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd da wrth gyflwyno mentrau sy'n bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae disgwyliadau'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a chynllunio ar gyfer TGCh wedi'u sefydlu'n llwyddiannus. Mae argymhellion y Siarter Iaith yn cael sylw amlwg ym mywyd a gwaith yr ysgol ac mae gofynion asesu ar gyfer dysgu wedi gwreiddio'n dda. Mae hyn wedi arwain at ddatblygu medrau disgyblion i werthuso eu gwaith eu hunain yn llwyddiannus.

Mae llywodraethwyr yn gefnogol i waith yr ysgol, yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn cyflawni eu dyletswyddau yn gydwybodol. Mae trefniadau i ymweld â'r ysgol yn gyson wedi sicrhau ymrwymiad y llywodraethwr i arsylwi'n fwy systematig ac wedi gwella eu dealltwriaeth o fywyd a gwaith yr ysgol. Dan arweiniad yr is-bwyllgor safonau, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella. Maent yn gweithredu'n effeithiol fel ffrindiau beirniadol ac yn herio a dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gweithdrefnau clir i fonitro perfformiad yr ysgol ac fe ddilynir amserlen benodol i arsylwi ac arfarnu pob agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol yn ei thro. Mae staff yn ystyried amrediad eang o dystiolaeth uniongyrchol, berthnasol fel arsylwadau gwersi, craffu ar waith disgyblion, data perfformiad a thrafod gyda dysgwyr.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn ddogfen fanwl ac arfarnol sy'n rhoi darlun eglur a gonest o gryfderau a diffygion yr ysgol. Fe ddefnyddir y wybodaeth o weithgareddau hunanarfarnu yn bwrpasol er mwyn gosod blaenoriaethau ar gyfer gwella.

Mae safbwyntiau staff, rhieni a disgyblion yn cefnogi’r broses arfarnu yn briodol. Rhoddir sylw da i lais y disgyblion drwy sesiynau amser cylch a chynghorau’r ysgol a holiaduron. Enghraifft dda yw'r ffordd mae disgyblion wedi chwarae rhan flaenllaw i ddatblygu’r llwybr antur ar iard yr ysgol.

Mae cyswllt clir rhwng deilliannau’r broses hunanarfarnu â blaenoriaethau’r cynllun datblygu. Mae'r cynllun yn canolbwyntio’n dda ar godi safonau a gwella’r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion. Enghraifft dda o hyn yw’r sylw a roddir i wella cyrhaeddiad disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae’r cynllun gwella yn cynnwys ystod briodol o gamau perthnasol ac yn nodi aelodau staff sydd â chyfrifoldeb am eu cyflawni. Mae’n cynnwys meini prawf llwyddiant heriol ar gyfer grwpiau penodol o ddisgyblion a therfynau amser sy’n addas ar gyfer cwblhau'r tasgau. Mae staff yn monitro cynnydd y blaenoriaethau yn effeithiol.

Mae gan yr ysgol dystiolaeth gadarn i ddangos bod cynllunio ar gyfer gwelliant wedi arwain at welliannau gweladwy mewn safonau a darpariaeth. Er enghraifft, mae gwaith ar ddatblygu medrau llafar wedi gwella hyder y disgyblion i drafod eu gwaith gyda’i gilydd ac oedolion.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol bartneriaeth gref gyda rhieni ac mae’r ysgol yn rhannu gwybodaeth gyda nhw yn effeithiol. Er enghraifft, mae staff yn cyhoeddi llyfrynnau gwybodaeth hynod ddefnyddiol ar eu cyfer, sydd yn sicrhau eu bod yn deall trefniadau a gwaith yr ysgol yn dda.

Mae disgyblion yn dysgu am bwysigrwydd cyfrannu at fywyd cymunedol trwy fynychu’r capel ar gyfer achlysuron arbennig a thrwy drefnu cydweithfa ffrwythau a llysiau ar gyfer trigolion y pentref. Mae aelodau o’r gymuned yn ymweld â’r ysgol yn rheolaidd i arwain gwasanaethau a hyfforddi’r disgyblion ar gyfer cystadlu mewn eisteddfodau.

Mae’r bartneriaeth gydag asiantaethau arbenigol a’r awdurdod lleol yn cefnogi staff a disgyblion yr ysgol yn effeithiol. Enghraifft dda o hyn yw’r gwelliannau sydd wedi eu gwneud i wella’r ardal allanol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen.

Mae cysylltiadau da gyda’r cylch meithrin mewn pentref cyfagos yn sicrhau bod y disgyblion yn ymgartrefu’n sydyn wrth gychwyn yn yr ysgol. Mae cydweithio buddiol rhwng yr ysgol â’r ysgol uwchradd, a’r trefniadau pontio cynhwysfawr, yn paratoi’r disgyblion hŷn yn dda ar gyfer trosglwyddo i’r cyfnod nesaf yn eu haddysg.

Mae’r ysgol yn gweithio’n llwyddiannus gydag ysgolion y clwstwr i safoni a chymedroli gwaith disgyblion. O ganlyniad, mae’r portffolios gwaith yn ddefnyddiol ar gyfer sicrhau cysondeb yn eu hasesiadau. Mae’r portffolio ar gyfer daearyddiaeth, fel ymateb i un o argymhellion yr arolygiad diwethaf, wedi sicrhau bod y ddarpariaeth bellach yn gadarn.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae digon o staff addysgu a staff cynorthwyol profiadol er mwyn ymdrin â phob agwedd o waith yr ysgol.  Mae cyfraniad a chefnogaeth y cymorthyddion dosbarth yn gryfder yn yr ysgol.  Maent yn cynnig cynhaliaeth werthfawr i athrawon ac yn dylanwadu'n gadarnhaol ar wella cyrhaeddiad y disgyblion, yn enwedig medrau iaith a rhifedd y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae amrediad da o adnoddau yn yr ysgol ac maent yn cael eu rheoli'n dda er mwyn sicrhau mynediad llawn i ddisgyblion at bob agwedd o'r cwricwlwm.

Mae'r trefniadau ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu yn briodol.

Mae'r ysgol yn gweithredu'n effeithiol mewn rhwydweithiau dysgu proffesiynol ac yn cydweithio'n agos ag ysgolion eraill i rannu arfer dda, er enghraifft i gynllunio ar gyfer y Fframwaith Cymhwysedd Digidol.  Mae'r cynllunio manwl ar gyfer TGCh yn sicrhau bod medrau'r disgyblion yn datblygu'n effeithiol.

Mae gan yr ysgol drefniadau cyllidebol trylwyr, ac mae gwariant yn cysylltu'n dda ag amcanion, targedau a chynlluniau gwella'r ysgol.  Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro ac yn rheoli gwariant yn ofalus ac yn sicrhau bod yr adnoddau ariannol yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi blaenoriaethau ar gyfer gwella.  Mae'r defnydd a wneir o'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn cael effaith gadarnhaol ar safonau'r ychydig ddisgyblion sy'n gymwys i dderbyn cinio am ddim.  Enghraifft dda yw'r ffordd mae canlyniadau profion cenedlaethol o fewn rhif gweithredol y disgyblion hyn wedi gwella.

O ystyried y safonau a'r ddarpariaeth a gynigir, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1:  Sylwadau ar ddata perfformiad

**6612097 - Ysgol Rhiwlas**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 36 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 4.4 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 6 | 4 | 5 | 6 |
| | | | | |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 83.3 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 4 |
| | | | | |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| | | | | |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 6 | 4 | 5 | 6 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 83.3 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 4 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 66.7 | 25.0 | 40.0 | 33.3 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 2 | 3 |
| | | | | |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 6 | 4 | 5 | 6 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 83.3 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 4 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 33.3 | 25.0 | 40.0 | 33.3 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 2 | 3 |
| | | | | |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 6 | 4 | 5 | 6 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 1 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 100.0 | 100.0 | 80.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 1 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6612097 - Ysgol Rhiwlas**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 36 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 4.4 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 5 | 4 | 8 | 3 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 60.0 | 75.0 | 87.5 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 | 1 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 5 | 4 | 8 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 60.0 | 75.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 40.0 | 50.0 | 12.5 | 33.3 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 4 | 4 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 5 | 4 | 8 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 60.0 | 75.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 40.0 | 50.0 | 25.0 | 33.3 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 3 | 3 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 5 | 4 | 8 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 60.0 | 75.0 | 87.5 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 20.0 | 50.0 | 25.0 | 33.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 4 | 4 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 5 | 4 | 8 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 60.0 | 75.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 20.0 | 50.0 | 50.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 2 | 1 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 20 | 19<br>95%<br>98% | 1<br>5%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 20 | 20<br>100%<br>92% | 0<br>0%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 20 | 17<br>85%<br>97% | 3<br>15%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 20 | 20<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 20 | 20<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 20 | 20<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 20 | 20<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 20 | 20<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 20 | 17<br>85%<br>91% | 3<br>15%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 20 | 20<br>100%<br>95% | 0<br>0%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 20 | 17<br>85%<br>77% | 3<br>15%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 20 | 20<br>100%<br>84% | 0<br>0%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 11 | 8<br>73%<br>63% | 3<br>27%<br>33% | 0<br>0%<br>3% | 0<br>0%<br>1% | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| My child likes this school. | 11 | 9<br>82%<br>73% | 2<br>18%<br>26% | 0<br>0%<br>1% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 11 | 9<br>82%<br>72% | 2<br>18%<br>26% | 0<br>0%<br>1% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| My child is making good progress at school. | 10 | 6<br>60%<br>62% | 3<br>30%<br>34% | 1<br>10%<br>3% | 0<br>0%<br>1% | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| Pupils behave well in school. | 11 | 6<br>55%<br>47% | 5<br>45%<br>48% | 0<br>0%<br>4% | 0<br>0%<br>1% | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| Teaching is good. | 11 | 7<br>64%<br>61% | 3<br>27%<br>36% | 1<br>9%<br>2% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 10 | 6<br>60%<br>65% | 4<br>40%<br>34% | 0<br>0%<br>1% | 0<br>0%<br>0% | 1 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 10 | 4<br>40%<br>49% | 3<br>30%<br>43% | 2<br>20%<br>6% | 1<br>10%<br>2% | 1 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 11 | 6<br>55%<br>60% | 5<br>45%<br>35% | 0<br>0%<br>4% | 0<br>0%<br>1% | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 10 | 8<br>80%<br>60% | 2<br>20%<br>37% | 0<br>0%<br>2% | 0<br>0%<br>0% | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| My child is safe at school. | 11 | 8<br>73%<br>66% | 2<br>18%<br>32% | 1<br>9%<br>2% | 0<br>0%<br>1% | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 10 | 6<br>60%<br>56% | 2<br>20%<br>39% | 2<br>20%<br>4% | 0<br>0%<br>1% | 1 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| I am kept well informed about my child's progress. | 11 | 3<br>27%<br>49% | 8<br>73%<br>41% | 0<br>0%<br>8% | 0<br>0%<br>2% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 11 | 10<br>91% | 1<br>9% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 10 | 6<br>60% | 3<br>30% | 0<br>0% | 1<br>10% | 1 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 48% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 10 | 7<br>70% | 3<br>30% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 58% | 40% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 10 | 4<br>40% | 5<br>50% | 1<br>10% | 0<br>0% | 1 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 52% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 11 | 7<br>64% | 4<br>36% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 54% | 39% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 11 | 7<br>64% | 3<br>27% | 1<br>9% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Mervyn Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Rhian Jones | Arolygydd Tîm |
| Owen Jenkins | Arolygydd Lleyg |
| Catrin James | Arolygydd Cymheiriaid |
| Iwan Davies | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.